Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin

Heol Llansteffan
Tre Ioan
Sir Gaerfyrddin
SA31 3NQ

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chanolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Canolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Darpariaeth ar fwy nag un safle? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 42 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 42 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/02/2026 |

### Rhagor o wybodaeth

Mae Canolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin, sy'n Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), yn rhan o ddarpariaeth awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r UCD yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cael eu cyfeirio at banel ymddygiad yr awdurdod lleol, ac yn bodloni ei feini prawf. Mae pob un o'r disgyblion yn cael pecynnau addysg targedig sy'n anelu at ddiwallu eu prif angen a nodwyd yn eu cynllun datblygu unigol (CDU) ac mewn cysylltiad â'u hysgol brif ffrwd ar sail lleoliad deuol, lle bo'n briodol.

Mae gan bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae ychydig dros chwarter ohonynt yn blant sy'n derbyn gofal. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae un bwrdd rheoli yn goruchwylio'r UCD.

Mae Rheolwr y Ganolfan wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2023, a hwn yw arolygiad cyntaf yr UCD.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae arweinwyr a staff yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i les a datblygiad eu disgyblion. Mae diben clir Rheolwr y Ganolfan i "greu hinsawdd o bosibilrwydd i bawb" yn llunio'r ymrwymiad hwn. Mae'r dull hwn ar y cyd yn creu amgylchedd gofalgar a chefnogol lle mae disgyblion yn gyffredinol yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu, a'u hannog, sy'n helpu llawer ohonynt i ymgysylltu'n llawnach â'u dysgu dros gyfnod. Mae staff yn fedrus wrth adnabod arwyddion cynnar o ddisgyblion yn methu rheoli emosiynau a defnyddio strategaethau i dawelu sefyllfaoedd, sy'n helpu cynnal awyrgylch cadarnhaol ac yn gwella ymddygiad. Mae cyfraddau gwaharddiadau wedi gostwng yn amlwg, gan ddangos effeithiau cadarnhaol cymorth therapiwtig a gofal bugeiliol. Fodd bynnag, mae grŵp bach o ddisgyblion yn profi gwaharddiadau mynych o hyd, sy'n dangos bod heriau o hyd wrth gefnogi'r rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth.

Mae amgylchedd yr UCD yn ysgogol a chefnogol, gyda mannau creadigol a llonyddol sy'n helpu disgyblion i reoleiddio eu hemosiynau a datblygu ymreolaeth. Mae gwaith partneriaeth effeithiol â gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth cydlynus a phersonoledig. Mae arweinyddiaeth ariannol yn gadarn ac yn sicrhau cyfle teg i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi a darpariaeth gwyliau, sy'n cefnogi lles a hyder disgyblion trwy gydol y flwyddyn. Mae trefniadau diogelu yn gryf, gyda gweithdrefnau clir, arfer gyson ymhlith staff, a chydweithio amlasiantaethol cadarn sy'n helpu disgyblion i ddatblygu medrau pwysig i'w cadw eu hunain yn ddiogel.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae presenoldeb yn destun pryder sylweddol o hyd. Mae arweinwyr yn deall y rhwystrau cymhleth sy'n wynebu disgyblion, yn cynnwys bregusrwydd, anghenion dysgu ychwanegol, ac amgylchiadau teuluol, ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i annog ymgysylltu. Er bod rhai disgyblion yn gwneud gwelliant sylweddol o'u mannau cychwyn, i lawer ohonynt, mae presenoldeb yn isel o hyd, sy'n cyfyngu ar y cynnydd y gallant ei wneud.

Caiff addysgu a dysgu ar draws yr UCD eu cryfhau gan berthnasoedd ymddiriedus ac ymagwedd hyblyg ac ymatebol at anghenion disgyblion. Lle mae arfer yn fwyaf effeithiol, mae gwersi'n ddifyr, yn ymarferol ac wedi eu cynllunio i feithrin medrau, llythrennedd, rhifedd a chreadigrwydd. Mewn ychydig o wersi, caiff addysgu ei arwain yn ormodol gan yr athro, neu mae disgwyliadau'n rhy isel, sy'n lleihau cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau, ymestyn eu meddwl, neu ddatblygu annibyniaeth.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas, ar y cyfan, ac yn ennill ystod o achrediadau sy'n cyd-fynd â'u galluoedd a'u diddordebau. Mae staff yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ôl-16, sy'n gryfder yn y ddarpariaeth.

Fodd bynnag, nid yw cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau ar draws yr UCD wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd, sy'n cyfyngu ar gydlyniant a chysondeb profiadau dysgu. Hefyd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf yn anghyfartal.

Mae strwythurau ffurfiol ar gyfer llais y disgyblion yn gyfyngedig, sy'n cyfyngu ar allu disgyblion i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau a datblygu hyder wrth ffurfio'u dysgu.

Mae darpariaeth ADY yn briodol ac yn gwella, gyda chynlluniau datblygu unigol yn arwain ymyriadau targedig mewn meysydd fel hunanreoleiddio, llythrennedd a rhifedd. Mae staff yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon i gefnogi dysgu, ond nid yw olrhain a gwerthuso ymyriadau wedi ei datblygu'n ddigonol, sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i fesur eu heffaith a sicrhau cynnydd cyson. Er bod systemau digidol ar gyfer monitro cynnydd yn datblygu ar y cyd, nid ydynt wedi cael eu hymgorffori'n llawn eto, sy'n lleihau manwl gywirdeb gwerthuso cyffredinol.

Mae arweinyddiaeth yn yr UCD wedi dwyn sefydlogrwydd a synnwyr cliriach o gyfeiriad, sydd wedi rhoi hwb i forâl staff ac wedi cryfhau ymrwymiad ar y cyd i gynhwysiant. Mae cyfrifoldebau clir a datblygiad proffesiynol, yn enwedig mewn arfer sy'n ystyriol o drawma, wedi helpu staff i gefnogi anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn fwy cyson. Ond eto, nid yw arweinyddiaeth o ran datblygu medrau wedi'i datblygu'n ddigonol, ac mae cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth ddosbarthedig yn gyfyngedig. Er bod prosesau hunanwerthuso yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth, maent yn ddisgrifiadol o hyd, sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i ddangos yn glir effaith camau gwella ar ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion. Mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn darparu goruchwyliaeth sy'n datblygu, ond megis dechrau y mae ymgysylltu â gwerthuso a gwella'r ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r UCD i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau cynllunio a chydlynu medrau ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella presenoldeb, yn cynnwys lleihau nifer y cynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau)

A3 Datblygu arweinyddiaeth ar y cyd i gynyddu capasiti ar y cyd yr UCD i arwain a chyflawni blaenoriaethau cytûn.

A4 Ymgorffori prosesau hunanwerthuso systematig yn llawn fel bod arweinwyr a staff yn gwerthuso effaith yn gyson ac yn defnyddio canfyddiadau i yrru gwelliant.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

# Prif ganfyddiadau

Mae staff yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin yn dangos gofal, dealltwriaeth a diddordeb mewn lles a datblygiad disgyblion. Mae Rheolwr y Ganolfan yn mynegi diben moesol clir ‘i greu hinsawdd o bosibilrwydd i bawb’. Mae staff ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn rhannu’r weledigaeth ddyheadol hon sy’n pwysleisio arfer sy’n ystyriol o drawma a lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu parchu a’u cefnogi, gan alluogi ymgysylltu gwell ar gyfer llawer o ddisgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

## Cefnogi lles, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion

Ar draws yr UCD, mae ymddygiad disgyblion yn sefydlog, ar y cyfan, ac mae disgyblion yn ymgysylltu’n gadarnhaol mewn gwersi. Mae staff yn hynod fedrus o ran adnabod arwyddion cynnar o aflonyddwch a rhoi strategaethau uwchgyfeirio cyflym ar waith i leihau tarfu ar ddysgu i’r eithaf. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn mwynhau mynychu’r UCD.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer arfer sy’n ystyriol o drawma yn effeithiol, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau sy’n gwella at ddysgu. Mae’r gwelliannau hyn yn dangos llwyddiant cynyddol yr UCD o ran cefnogi disgyblion i ailymgysylltu â dysgu a magu hyder. Mae ymddygiad ar draws yr UCD yn gwella’n raddol, ac mae prosesau monitro ar gyfer olrhain ymddygiad a defnyddio ymyriadau corfforol yn dangos gostyngiadau mewn dwysedd a chymhlethdod, fel ei gilydd. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ddigynnwrf ac yn canolbwyntio yn ystod gwersi. Fodd bynnag, nid yw staff yn mynd i’r afael yn gyson â defnydd disgyblion o iaith amhriodol.

Mae’r hinsawdd yn yr UCD yn gadarnhaol a llonyddol, gan helpu disgyblion i setlo a theimlo wedi ymlacio trwy gydol y dydd. Mae’r amgylchedd ffisegol yn ysgogol a chefnogol, fel ei gilydd, sy’n cynnwys ystafell gerddoriaeth, mannau creadigol a pharthau gemau. Caiff disgyblion fynediad at ardaloedd llonyddol, ac maent yn eu defnyddio’n bwrpasol, gan hyrwyddo ymreolaeth dros eu lles emosiynol a meddyliol.

Mae arweinwyr a staff yn deall yn dda beth yw’r rhwystrau cymhleth sy’n cyfrannu at bresenoldeb gwael i lawer o ddisgyblion, yn cynnwys bregusrwydd, anghenion dysgu ychwanegol ac amgylchiadau teuluol. Maent yn gweithio’n ddiwyd i gynnal cysylltiad rheolaidd â theuluoedd, a chynnwys asiantaethau allanol, lle bo’n briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud gwelliant sylweddol yn eu presenoldeb o’u mannau cychwyn. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae presenoldeb yn rhy isel o hyd ar gyfer gormod o ddisgyblion. Mae presenoldeb yn y ganolfan yn peri pryder sylweddol.

At ei gilydd, mae Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau) yn addas gyda system sefydledig ar waith ar gyfer adolygiadau bob tair wythnos. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gan ryw hanner y disgyblion CCB ar waith.

At ei gilydd, mae lefelau gwaharddiadau wedi gwella'n sylweddol, gan leihau o 43 gwaharddiad yn nhymor yr hydref 2024 i 20 yn nhymor yr hydref 2025, gan ddangos bod ymyriadau a chymorth therapiwtig yn cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae gwaharddiadau wedi eu canoli ymhlith ychydig o ddisgyblion o hyd, gan amlygu heriau parhaus wrth ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion ymddygiadol cymhleth. Mae'r system adrodd ac olrhain bresennol yn rhwystro gwerthuso gan arweinwyr gan nad yw'r ddarpariaeth yn cofnodi nac yn dadansoddi nifer y diwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau, fel mater o drefn.

Mae gwaith partneriaeth yn fuddiol, gyda chysylltiadau helaeth ac effeithiol ar draws gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol sy'n galluogi arweinwyr i ddiwallu anghenion cyfannol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cymorth amserol, cydlynus a phersonoledig, sy'n cyfrannu at les ac ymgysylltu gwell.

### Ciplun 1 – Cymorth ar gyfer disgyblion trwy gydol y flwyddyn ysgol

Mae'r UCD yn darparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais yn economaidd. Mae hyn wedi'i wreiddio mewn ymrwymiad cryf i degwch a chynhwysiant. Caiff rhwystrau ariannol eu dileu fel bod pob un o'r disgyblion yn gallu cymryd rhan yn llawn mewn tripiau, ymweliadau a gweithgareddau cyfoethogi. Hefyd, mae arweinwyr yn dyrannu cyllid yn fuddiol i staff yr UCD gyflenwi darpariaeth gynhwysfawr yn ystod gwyliau. Mae hyn yn sicrhau parhad cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion yn ystod gwyliau ysgol, pan mae disgyblion fwyaf mewn perygl o ymddieithrio. Caiff y dull cyson hwn trwy gydol y flwyddyn effaith gadarnhaol ar les, hyder a gwydnwch disgyblion, sy'n eu helpu i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae profiadau cyfoethogi yn ehangu gorwelion disgyblion ac yn cyfrannu at ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol gwell.

### Trefniadau diogelu

Mae trefniadau diogelu yn yr UCD yn gryf. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant lle mae disgyblion yn dysgu sut i aros yn ddiogel trwy wersi a gweithgareddau, ac mae staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu yn gyson. Mae disgyblion bregus yn cael cymorth o ansawdd uchel, wedi'i gefnogi gan waith amlasiantaethol ac arferion dyddiol sy'n ei gwneud yn hawdd iddynt godi pryderon. Mae'r pwyllgor rheoli yn monitro diogelu trwy adroddiadau, cyfarfodydd, ac archwiliadau, tra bod staff yn cael hyfforddiant trylwyr, yn cynnwys diweddariadau rheolaidd. At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn helpu disgyblion i ddeall risgiau, cydsynio a diogelwch ar-lein yn effeithiol.

## Addysgu a dysgu a datblygiad medrau

Mae staff ar draws yr UCD yn datblygu perthnasoedd ymddiriedus ac anogol â'r disgyblion. At ei gilydd, mae ganddynt ymagwedd hyblyg ac maent yn addasu profiadau dysgu yn briodol i ymateb i anghenion, ymddygiad a lles disgyblion. Mae strategaethau i reoli ymddygiad yn gyson, ac mae gan ddisgyblion ddisgwyliadau a ffiniau clir ar waith.

Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o anghenion a diddordebau disgyblion, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio dysgu sy'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol. Mae llawer o staff addysgu yn darparu profiadau dysgu ysgogol, ymarferol a hynod greadigol fel toddi metel i greu darnau arian Rhufeinig a pharatoi bwydydd gyda chynhwysion a oedd ar gael yn ystod yr Oes Rufeinig yn unig. Mae'r gweithgareddau dysgu hyn yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd addas. Yn y gwersi effeithiol hyn, mae staff addysgu yn defnyddio cyfarwyddiadau clir ac eglur a chwestiynau effeithiol sy'n cefnogi a datblygu dealltwriaeth disgyblion yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, caiff gweithgareddau dysgu eu harwain yn ormodol gan athrawon. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gynnal eu meddwl neu wneud penderfyniadau am sut maent yn cynllunio ac yn cwblhau eu gwaith. Hefyd, mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau'n rhy isel.

Ar draws yr UCD, caiff asesu ei gynllunio a'i gyflwyno i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae adborth llafar yn ddi-oed, yn gadarnhaol ac yn gefnogol i ymdrechion disgyblion. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddyfalbarhau â'u tasgau dysgu a gwneud cynnydd effeithiol dros gyfnod. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn cynnwys cwestiynau a sylwadau sy'n herio disgyblion i egluro'u meddwl neu ymestyn eu dysgu.

Mae gan staff addysgu ffocws buddiol ar ddatblygu medrau disgyblion mewn meysydd dysgu pwysig sy'n cysylltu'n addas ag anghenion unigol y disgyblion. At ei gilydd, lle mae disgyblion yn mynychu'n rheolaidd, maent yn gwneud cynnydd addas yn datblygu medrau pwysig, ar y cyfan. Maent yn mwynhau dysgu, yn cymryd rhan yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau ar draws yr UCD wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Hefyd, nid yw'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf yn gyfartal. O ganlyniad, ni all disgyblion ddilyn y cwricwlwm trwy eu hiaith ddewisol.

Caiff llawer o ddisgyblion gyfleoedd addas i gymhwyso'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ymwelwyr ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau dysgu ac am eu cynlluniau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn rhugl ac yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn dethol gwybodaeth o destunau yn

llwyddiannus ac mae ychydig o ddisgyblion yn rhesymu ac yn casglu ystyr o destunau. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu am sut mae awduron yn gwneud i ni deimlo trueni am bobl sy'n cysgu ar y stryd. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu brawddegau byr am achosion ac effeithiau cynhesu byd-eang, ac mae ychydig o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu am b'un a ddylid gwahardd profi ar anifeiliaid ar gyfer ymchwil feddygol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn datblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, maent yn nodi priodoleddau siapiau, yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau ac yn cwblhau cyfrifiadau sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau rhifedd o fewn cyd-destunau bywyd fel mesur meintiau ar gyfer coginio a mesur hydau i adeiladu coed Nadolig pren.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn fedrus trwy ystod eang o weithgareddau dysgu pwrpasol a chyfoethog. Er enghraifft, wrth ddefnyddio'r gampfa a adnewyddwyd yn ddiweddar neu greu stolion pren a chynhyrchu darnau celf deniadol. Mae hyn yn gryfder yn yr UCD.

Mae staff yn paratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf mewn bywyd a dysgu. Trwy gymorth ac arweiniad wedi eu hystyried yn ofalus, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud ymlaen yn llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16 yn y coleg addysg bellach lleol, neu ymlaen i hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn gryfder clir yn yr UCD.

Mae arweinwyr wedi sefydlu system asesu ac olrhain fuddiol. Mae hyn yn galluogi athrawon i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion unigol o'u gwaelodlinau mynediad yn eu lles a'u meysydd dysgu a'u medrau yn briodol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni ystod o achrediadau mewn meysydd sy'n adlewyrchu eu galluoedd a'u diddordebau yn dda. Mae hyn yn cynnwys Ymddiriedolaeth y Brenin, lefelau Mynediad, cymwysterau BTEC, dyfarniadau Lefel 1 a 2 a TGAU.

## Llais y disgybl

Mae staff yn ystyried llais y disgybl wrth gynllunio adnoddau a datblygu'r amgylchedd, er enghraifft datblygu'r ardaloedd synhwyraidd gwallt a harddwch gydag adnoddau wedi eu costio'n briodol, gan ychwanegu haen o ddysgu byd go iawn. Fodd bynnag, mae diffyg strwythurau ffurfiol ar gyfer llais y disgybl. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau a chyfrannu'n ystyrlon at benderfyniadau am eu dysgu dros gyfnod. Mae hyn yn golygu bod cyfle'n cael ei golli i fagu hyder a grymuso disgyblion mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

## Darpariaeth y cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn dod yn gynyddol gydlynus, berthnasol a chynhwysol, wedi'i gefnogi gan ddulliau hyblyg ac ystod ehangol o brofiadau. Ceir ymrwymiad cryf i ymestyn ymgysylltiad a lles disgyblion. Mae staff yn dangos ymroddiad trwy gyflwyno disgyblion i gyfleoedd newydd a chyfoethog, yn cynnwys arosiadau dros nos a gweithgareddau awyr agored anturus fel canŵio dŵr gwyn a sgïo.

Mae tegwch yn y cynnig cwricwlwm ar gyfer pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai ar drefniadau rhan-amser, yn gryfder yn yr UCD. Datblygwyd cynlluniau gweithredu buddiol ar gyfer meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) i fonitro'r camau nesaf ar draws yr holl feysydd pwnc; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith lawn y cynlluniau hyn o hyd.

## Darpariaeth ADY

At ei gilydd, mae darpariaeth ADY o fewn yr UCD yn briodol ac yn datblygu'n dda. Mae gan bob un o'r disgyblion yn yr UCD anghenion dysgu ychwanegol a chânt eu cefnogi trwy gynlluniau datblygu unigol (CDUau) a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae'r Cydlynydd ADY yn chwarae rôl ganolog mewn rhannu gwybodaeth o'r cynlluniau hyn gyda phob un o'r staff, sy'n galluogi datblygu ymyriadau targedig sy'n cefnogi cynnydd mewn meysydd allweddol fel hunanreoleiddio, llythrennedd a rhifedd. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn llywio proffiliau ymyrraeth, sy'n cael eu rhannu gyda rhieni a gofalwyr, gan helpu cynnwys teuluoedd yn nhaith ddysgu eu plentyn. Er bod ymyriadau wedi eu cynllunio'n dda, nid yw olrhain a gwerthuso'u heffaith wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae cymorth ar gyfer disgyblion newydd yn gadarn, ac mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth glir a chywir sy'n galluogi staff i baratoi cynlluniau pontio unigoledig. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau profiadau cychwynnol pwrpasol, sy'n cael eu llunio gan lais y disgybl, yn ogystal â mewnbwn rhieni a gofalwyr, sy'n helpu disgyblion i setlo'n gyflym ac ymgysylltu â dysgu.

Mae gweithdrefnau i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn datblygu'n effeithiol, gan gefnogi disgyblion i gyflawni eu targedau mewn camau bach. Caiff cofnodion digidol eu cynnal ar y cyd gan bob un o'r staff, gan hyrwyddo atebolrwydd a rennir a sicrhau yr eir i'r afael yn gyson ag anghenion cymhleth disgyblion ar draws yr UCD.

Mae gan y Cydlynydd ADY ddealltwriaeth gadarn o strategaethau i gefnogi ystod lawn anghenion cymhleth disgyblion, ac mae'n gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol, yn cynnwys y gwasanaeth seicoleg addysg a'r gwasanaethau plant. Gyda'i gilydd, maent yn datblygu adnoddau a strategaethau y gall pob un o'r staff eu rhoi ar waith, gan sicrhau dull cydlynol a chydlynus o ddiwallu anghenion unigol disgyblion.

## Arwain a gwella

Ers penodi Rheolwr presennol y Ganolfan, mae arweinwyr wedi dwyn sefydlogrwydd a chydlyniant gwell.  Ceir dealltwriaeth gref ac ar y cyd o ethos cynhwysol yr UCD, lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae arweinwyr wedi sefydlu strwythurau atebolrwydd clir, yn cynnwys, er enghraifft, cyfarfodydd wythnosol y staff a'r uwch dîm rheoli a chlinigau addysgu a dysgu rheolaidd. Mae hyn yn dechrau cryfhau ansawdd cyfeiriad strategol yn yr UCD ac yn arwain at welliannau mewn ychydig o feysydd, er enghraifft yn y dulliau cyson i gefnogi lles ac ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw arweinyddiaeth ar y cyd wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ceir cyfleoedd rheolaidd a buddiol i staff gydweithio a chael deialog broffesiynol, yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio a dysgu proffesiynol. Caiff dysgu proffesiynol ei werthfawrogi'n fawr gan staff ac mae'n arwain at gysondeb gwell mewn ychydig o feysydd, fel arfer sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn cryfhau hyder staff o ran rheoli anghenion emosiynol ac ymddygiadol disgyblion, ac mae achosion o ddisgyblion yn methu rheoli emosiynau wedi lleihau.

Mae prosesau hunanwerthuso yn defnyddio ystod ddatblygol o dystiolaeth addas, gan gefnogi arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth o werthuso data, teithiau dysgu, bwrw golwg ar lyfrau a deialog broffesiynol. Mae blaenoriaethau gwella yn cyd-fynd yn dda â chanfyddiadau hunanwerthuso ac yn nodi'n gywir yr angen i wella medrau disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, cynyddu presenoldeb a datblygu capasiti arwain. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn darparu cymorth a her effeithiol, gan gynnig arweiniad strwythuredig ar gyfer monitro a chyfrannu at adolygiadau dysgu sy'n modelu dull gwerthusol. Er bod arweinwyr yn yr UCD yn dechrau cymhwyso'r dull hwn, nid yw'n cael ei ymgorffori'n llawn eto. O ganlyniad, mae hunanwerthuso yn rhy ddisgrifiadol o hyd ac nid yw'n fanwl gywir, sy'n cyfyngu ar allu arweinwyr i ddangos yn glir effaith camau gwella ar ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion dros gyfnod.

Mae prosesau datblygu ac adolygu perfformiad yn darparu fframwaith clir ar gyfer atebolrwydd, ac mae amcanion yn cyd-fynd yn fras â blaenoriaethau'r UCD. Mae trefniadau i reoli tanberfformio yn gefnogol ac yn cael eu deall yn dda, gan sicrhau cydbwysedd da rhwng lles staff ac atebolrwydd.

Mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn dwyn arbenigedd addas ac yn cyfrannu'n ystyrlon at feysydd allweddol fel recriwtio a meithrin gwelliannau. Maent yn darparu lefel ddatblygol o oruchwyliaeth strategol gydag ymwybyddiaeth gynyddol o gryfderau'r UCD a'i meysydd i'w datblygu. Mae ychydig o aelodau wedi cymryd rhan mewn teithiau dysgu a

gweithgareddau llais y disgybl. Fodd bynnag, at ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae eu rôl mewn hunanwerthuso.

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth ariannol yn gadarn ac yn gynyddol effeithiol, a defnyddir cyllid grant a'r gyllideb graidd yn briodol i gefnogi anghenion disgyblion, gwella sefydlogrwydd staffio a chryfhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r UCD ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr UCD drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn rheoli cyllid yr UCD yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu UCD
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y Cyngor UCD a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr UCD i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026